Gweithdy drama

Braf oedd croesawu Gill Ogden yn ôl atom ar gyfer ail ran y gweithdy drama. Bu pawb wrthi'n gweithio'n galed drwy'r bore yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu. Elwodd y plant yn fawr o'r profiad a braf oedd eu gweld yn cael y fath fwynhad.

Pêl-droed 5 bob ochr

Tro'r merched oedd hi i ddangos eu sgiliau pêl-droed yn Neuadd Chwaraeon Pen-glais. Cafwyd cystadleuaeth frwd gyda dau dîm yr ysgol yn gwneud eu gorau glas. Da iawn chi ferched!

Eisteddfod Offerynnol yr Urdd

Ar ôl chwarae gêmau caled o bêl-droed bu'n rhaid i rai o'r merched ruthro o Ben-glais lawr i'r Ysgol Gymraeg er mwyn ymuno ag aelodau eraill y band. Roedd digon o anadl ar ôl ganddynt ac fe lwyddodd band yr ysgol i gipio'r trydydd safle. Tipyn o gamp o ystyried fod 13 yn cystadlu.